

POLISI DATGAN BUDDIANNAU

1. DATGAN BUDDIANNAU

- 1.1 Mae'r datganiad gwrthdaro buddiannau yn berthnasol i holl aelodau Bwrdd Ein Rhyl. Mae hyn yn cynnwys datgan unrhyw fuddiannau ariannol neu an-ariannol (personol) a allai fod gan yr aelod mewn perthynas ag unrhyw eitem sy'n cael ei hystyried gan Fwrdd Ein Rhyl.
- 1.2 Fel aelodau o'r gymuned, mae'n rhesymol y bydd gan nifer fuddiannau a allai elwa o waith y Bwrdd yn anuniongyrchol. Nid yw hyn yn atal unigolion rhag ymuno â Bwrdd Ein Rhyl, ond rhaid datgan buddiannau, a dylai aelodau anghymwyso eu hunain o unrhyw benderfyniadau perthnasol.
- 1.3 Bydd eitem Datgan Buddiannau ar ddechrau'r rhaglen ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd ac adroddir am hynny yng nghofnodion y cyfarfod perthnasol. Bydd methu â datgan buddiannau priodol yn sail i'ch tynnu oddi ar y Bwrdd.
- 1.4 Os bydd gwrthdaro buddiannau, bydd yr unigolyn sy'n destun i'r gwrthdaro hwnnw'n datgan ar unwaith natur y gwrthdaro neu'r gwrthdaro posibl ac yn tynnu'n ôl o unrhyw fusnes lle byddai'r gwrthdaro yn berthnasol.
- 1.5 Pryd bynnag y bydd gan unigolyn fuddiant mewn mater a drafodir mewn cyfarfod, ni fydd yr unigolyn dan sylw yn:
 - Cael yr hawl i aros yn y cyfarfod yn ystod y drafodaeth am y mater hwnnw.
 - Cael ei gynnwys yn y cworwm ar gyfer y rhan honno o'r cyfarfod.
 - Cael yr hawl i bleidleisio ar y mater.
- 1.6 Gally Cadeirydd Annibynnol, ar unrhyw adeg, awdurdodi unigolyn i aros yn y cyfarfod tra bod mater yn cael ei drafod y mae ganddynt neu y gallai fod ganddynt wrthdaro buddiannau, os gallant ddarparu mewnwelediad neu brofiad ychwanegol, ond ni fydd ganddynt hawl i bleidleisio ar y mater.